# Fformat yr Adroddiad Hunanwerthuso

Argymhellir y Fframwaith Arolygu Cyffredin fel sail ar gyfer hunanwerthuso. Mae'r fframwaith wedi ei lunio i fod yn gydnaws â systemau ansawdd eraill a ddefnyddir yn helaeth megis Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP), PEEL, Model Rhagoriaeth Rheoli Ansawdd y Sefydliad Ewropeaidd (EFQM), ac ati.

Ni fydd gofyn i ysgolion ddefnyddio'r fframwaith fel model, ond bydd disgwyl iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer hunanwerthuso i archwilio a chanolbwyntio ar:

- Safonau
- Ansawdd yr addysg
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Fel gofyniad lleiaf, bydd arolygwyr yn disgwyl i bob ysgol gyflwyno i'r tîm adroddiad hunanwerthuso sy'n rhoi crynodeb o gryfderau a diffygion yr ysgol ynghyd ag asesiad trwyadl o'r cynnydd a'r gwelliant a wnaed ers yr arolygiad blaenorol. Dylai hunanwerthuso gynnwys staff ar bob lefel ac ystyried safbwyntiau dysgwyr, partneriaid a, lle y bydd yn briodol, rhieni a'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol.

Dylai adroddiad hunanwerthuso da:

- Fod yn werthusol ac yn gryno
- Adnabod diffygion yn ogystal â nodweddion da
- Rhoi barnau clir ynghylch pob elfen yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- Sicrhau bod y barnau'n cyd-fynd â'r dystiolaeth ac yn cynnwys croesgyfeiriadau at y dystiolaeth ategol
- Darparu a chynnig sylwadau am ddata ystadegol yn ymwneud â chanlyniadau dros y blynyddoedd diwethaf
- Cyfeirio at asesiadau neu adolygiadau diweddar o'r ddarpariaeth: ac yn
- Perthyn yn glir i gynllun datblygu a thargedau.

Fodd bynnag, gall ysgolion gyflwyno eu hadroddiad hunanwerthuso sut bynnag y dymunant wneud hynny. Awgrym yn unig yw'r fformat a geir drosodd ond mae'n bodloni meini prawf adroddiad hunanwerthuso.

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw cyflawniadau'r dysgwyr?

- Mae monitro addysgu'n rheolaidd yn dangos bod ansawdd y dysgu'n dda neu'n well mewn 85% o wersi a arsylwyd, sydd yn welliant ar yr arolygiad blaenorol lle ystyriwyd mai dim ond 76% ohonynt oedd yn dda neu'n well.
- Caiff y sgiliau allweddol y mae plant yn eu hennill eu gosod yn gadarn bellach yn yr holl waith a wneir ac mae safonau'n dda ar hyn o bryd. Caiff TGCh ei gwella ymhellach pan fydd yr holl staff wedi cael hyfforddiant BGRh (Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol)
- Mae pynciau craidd yn dda yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r dangosydd pwnc craidd yn gyson yn uwch na'r meincnod perfformiad cyfartalog yn y chwartel uchaf. Serch hynny mae canlyniadau mathemateg, er yn dda, yn amrywiol o'u cymharu â Saesneg a gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o ran rhyw rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn y pynciau craidd.
- Cyflwynwyd y syniad o rannu targedau gyda disgyblion er mwyn gwella perfformiad disgyblion ond hyd yn hyn nid yw wedi'i werthuso. Dengys data gosod targedau gydberthynas cynyddol rhwng canlyniadau a amcangyfrifir a chanlyniadau gwirioneddol.

### Ffynonellau Tystiolaeth

Adroddiadau monitro mewnol
Adroddiadau arweinyddion pwnc
Adroddiad adolygu AALl
Adroddiad monitro UDRh
Data CA1 a CA2
Cofnodion y corff llywodraethu

## Cwestiwn Allweddol 2: Ansawdd yr addysg, yr hyfforddiant a'r asesu

- Mae'r perthnasau gyda'r disgyblion yn dda iawn ac yn hyrwyddo amgylchedd dysgu effeithiol. Barnwyd bod pob gwers a welwyd gan yr UDRh yn dda neu'n well.
- Mae gwybodaeth bwnc yr athrawon yn dda. Mae hyfforddiant da wedi helpu ei datblygu.
- Mae'n rhaid i'r ysgol gynnal ymchwiliad trwyadl i arddulliau addysgu a dysgu er mwyn galluogi pob disgybl i gael mynediad i'r cwricwlwm.

- Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn dda ar gyfer y pynciau craidd, ond yn anghson ar hyn o bryd yn y pynciau sylfaen. Mae angen i'r ysgol ddatblygu strategaeth gydlynus wedi'i seilio ar y Deunyddiau Asesu Dewisol (DAD) i hwyluso'r angen hwn.
- Mae angen sicrhau bod gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n llawn yn enwedig o ran hysbysu rhieni a bod adroddiadau blynyddol yn effeithiol o ran bodloni hyn.
- Mae angen mynd i'r afael â gwahaniaethu nad yw'n cael ei gynllunio'n gyson ar draws yr ysgol ar hyn o bryd.

**Tystiolaeth Ategol**

**Polisi Asesu, cofnodi ac adrodd**
**CDY**
**Cyfarfodydd Cofnodion Adolygu'r Plant**
**Cofnodion DPP**
**Adroddiadau Arweinyddion Pwnc**
**Holiaduron Rhieni**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn ateb anghenion a diddordebau'r dysgwyr a'r gymuned ehangach**?

- Darperir amrediad o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer y disgyblion. Ar hyn o bryd caiff y rhain eu darparu'n bennaf ar gyfer CA2 uwch. Mae angen datblygu darpariaeth ar gyfer CA2 is ac o bosib CA1 uwch.
- Mae cynlluniau tymor hir, canolig a byr ar gael ar gyfer pob un o feysydd y cwricwlwm er mwyn llwyddo i sicrhau dilyniant a pharhad i ddysgu'r disgyblion. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r modd y caiff pynciau sylfaen eu dyrannu bob yn ail dymor i sicrhau cydbwysedd ac ehangder.
- Mae'r disgyblion yn cyfrannu mewn amrediad eang o ymweliadau er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol a chredwn fod y Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd amlwg ar draws y pynciau ac mewn llawer o'r arddangosiadau da o gwmpas yr ysgol.
- Mae'r polisi a'r rhaglen a ddatblygwyd gennym yn ddiweddar i gyflwyno ABCh yn dechrau darparu fframwaith strwythuredig i ddisgyblion ar ystod o faterion moesol a chymdeithasol. Mae gweithgareddau fel Criw Croch yn gwella dealltwriaeth.
- Mae polisïau pwnc yn cynnwys cyfeiriadau manwl at y C.C. ond mae arno angen fwy o gysondeb ar draws yr ysgol.

- Credwn fod yr ysgol yn weithgar yn y ffordd y mae’n hyrwyddo gwerthoedd goddefgarwch a charedigrwydd ac mae’r staff yn rhoi ystyriaeth ddifrifol a chyson i faterion bwlio, gwahaniaethu ar sail rhyw a hiliaeth.

**Tystiolaeth Ategol**

**Adroddiadau monitro pwnc**
**Proffiliau pwnc**
**Cofnodion y corff llywodraethu**

**Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw’r gofal, yr arweiniad a’r gefnogaeth ar gyfer y dysgwyr?**

- Yn gyffredinol mae rhieni’n gefnogol o’r ysgol a’i gwerthoedd. Maent yn gwerthfawrogi’r mynediad parod a gânt i’r Pennaeth a’r staff. Mae’r rhieni’n derbyn y cytundeb cartref-ysgol yn ddibetrus.
- Mae presenoldeb yn cael ei fonitro’n rheolaidd ac mae’n foddhaol ac yn gwella’n raddol. Mae pryder ynglŷn â phrydlondeb gyda chanran arwyddocaol yn cyrraedd yn hwyr. Ychydig o deuluoedd yn unig sydd yn gysylltiedig â hyn, fodd bynnag, ac mae’r SLlA yn gweithio gyda’r ysgol i liniaru’r sefyllfa.
- Mae ymddygiad ac agwedd y disgyblion yn dda iawn yn ystod y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Gweithredir y polisi ymddygiad yn gyson ar draws yr ysgol ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir ohono.
- Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ag AAA yn dda ar y cyfan. Mae’r Côd Ymarfer yn weithredol ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd tuag at dargedau a osodir iddynt. Roedd rhai rhieni’n teimlo nad oedd pob angen yn cael ei fodloni a bod anghenion y disgyblion yn cael eu cyfaddawdu. Bydd y cydlynydd AAA yn edrych i adolygu’r CAU yn erbyn anghenion y plant.
- Llunnir cysylltiadau da ag asiantaethau allanol a gwneir defnydd effeithiol o gyngor ac arweiniad a roddir.

**Tystiolaeth Ategol**

**Holiaduron rhieni**
**Polisi ABCh**
**Data presenoldeb**

**Canllawiau ar gyfer disgyblu'n gadarn**
**Cofnodion cyfarfodydd staff**

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

- Ceir cydberthynas dda rhwng dirnadaeth y pennaeth a'r staff o ran cyfeiriad ac arweinyddiaeth. Bu holiadur y RhAPU yn cadarnhau hyn.
- Mae'r ysgol yn defnyddio data'n effeithiol ac yn gosod targedau realistig i'w disgyblion. Mae hyn wedi'i seilio ar doreth o dystiolaeth megis TASau, SCYA ac mae cydberthynas dda rhwng asesiadau athrawon a pherfformiad disgyblion.
- Mae angen gwella datblygiad proffesiynol yr holl staff ar sail fwy cyson ac eglur sy'n gysylltiedig â'r CDY a mentrau cenedlaethol. Dylai'r cylch Rheoli Perfformiad sydd ar y gweill bellach helpu i ddatblygu staff.
- Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ond mae angen iddynt gymryd rhan fwy gweithgar o ran eu cyfranogiad at y CDY a'r modd y caiff ei archwilio.

**Tystiolaeth Ategol**

**Data RhAPU**
**Cofnodion UDRh**
**Dadansoddiad data perfformiad disgyblion**
**Holiaduron staff**
**Cofnodion y corff llywodraethu**

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r dysgwyr a'r rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?**

- Rhennir data am berfformiad y Cyfnodau Allweddol a chanlyniadau SCYA ymhlith y staff ac maent yn defnyddio'r wybodaeth mewn modd diagnostig er mwyn amlygu meysydd. Fodd bynnag, mae angen monitro a gwerthuso gweithrediad ac effeithiolrwydd unrhyw strategaethau a ddefnyddir er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n deillio o'r data.
- Erbyn hyn mae cydlynwyr yn llunio adroddiadau sy'n cynnwys mwy o wybodaeth a hynny drwy gyfrwng archwiliadau pwnc yn

ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau. Mae angen bellach gweithredu rhaglen wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau bod y pynciau sylfaen yn cael eu dadansoddi'n ddigonol.

- Yn y lle cyntaf mae archwiliadau wedi amlygu'r angen i fynd i'r afael â mater adnoddau mewn rhai o feysydd y cwricwlwm fel daearyddiaeth, AGref a llyfrau ffuglen ar gyfer CA2 uwch a bydd gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei gynllunio.
- Dosbarthwyd holiaduron i ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach er mwyn cael syniad o'u barn ac i gynorthwyo yn y broses hunanwerthuso. Nid yw'r rhain wedi'u casglu na'u dadansoddi hyd yn hyn ond dylent ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol.
- Mae'r CDY yn fframwaith gweithredol sy'n nodi'n glir beth yw'r blaenoriaethau a'r targedau ar gyfer gwella'r ysgol.

**Tystiolaeth Ategol**

**Cofnodion cyfarfodydd UDRh**
**Archwiliadau pwnc**
**Holiaduron staff, disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethu**
**Cofnodion y Corff Llywodraethu**
**Ffurflenni asesu Marc Safon y Sgiliau Sylfaenol**
**Adroddiadau ymweliadau ysgol yr AALl**
**Archwiliadau pwnc**
**Dadansoddiad o ddata CA1 a 2**

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithiol yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

- Mae ansawdd y staff yn dda ac mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol. Maent yn ymdrin â'u rolau yn gydwybodol trwy gyfrwng y gyllideb AAA er mwyn cefnogi unigolion a enwir a chaiff eraill eu cynnal drwy gyfrwng cyllidebau'r ysgol. O'r chwe aelod o staff cefnogi, mae tri ohonynt yn mynychu cwrs CGC Lefel 2 neu debyg a nod yr ysgol yw y bydd pob Cynorthwy-ydd Cefnogi yn cael hyfforddiant hyd at CGC Lefel 2 o leiaf a gobeithio Lefel 3.
- Yn gyffredinol mae adnoddau dysgu'n dda ond fel y dangoswyd yn flaenorol mae archwiliadau pwnc wedi amlygu meysydd a gellir eu gwella.

- Mae angen datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Mae pryderon diogelwch am wyneb y brif iard yn enwedig yn ystod sesiynau chwaraeon ac amser cinio.
- Mae'r Corff Llywodraethu'n chwarae rhan weithredol yn y pwyllgor cyllid ac maent yn adolygu gwariant yn rheolaidd. Byddant yn defnyddio gwybodaeth archwiliadau pwnc i sicrhau bod y gwariant ar gyfer adnoddau'n berthnasol a bod modd cynllunio ar ei gyfer. Hefyd mae'r pwyllgor cyllid yn sicrhau bod problemau a nodir yn y CDY yn cael eu costio'n briodol a bod gwariant a ddyrennir i'r rhain yn cael ei wario'n effeithiol.

**Tystiolaeth Ategol**

**CDY**
**Adolygiad Llety**
**Adroddiadau arweinwyr pwnc**
**Holiadur staff**
**Cofnodion pwyllgor cyllid y Corff Llywodraethu**
**Adroddiadau monitro AALl**